# Comisiwn y Cynulliad

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Gynhadledd 4B – Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 16 Mehefin 2016** |
| Amser: | **09.00 – 10.30** |

## Cofnodion: AC(5)2016(1)

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Comisiwn: | **Elin Jones AC (Cadeirydd)**<br>**Suzy Davies AC**<br>**Caroline Jones AC**<br>**Dai Lloyd AC**<br>**Joyce Watson AC** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc**<br>**Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn**<br>**Gwion Evans, Head of Presiding Officer's Private Office** |
| Eraill yn bresennol: | |

## 1 Cyflwyniad

### 1.1 Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

### 1.2 Datgan Buddiannau

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.

## 2 Trefn lywodraethu a gweithdrefnau Comisiwn y Cynulliad

Bu Comisiynwyr yn trafod dogfennau sy’n nodi’r egwyddorion fframwaith cyffredinol ar gyfer llywodraethu’r sefydliad, y rheolau ar gyfer cynnal cyfarfodydd y Comisiwn a dirprwyo swyddogaethau i'r Prif Weithredwr.

Cytunodd y Comisiwn ar yr Egwyddorion Llywodraethu a’r Darpariaethau Ategol a ddiweddarwyd. Fe’u datblygwyd yn unol â’r Cod Arferion Da ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi a Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU y Cyngor Adrodd am Faterion Ariannol, gan ystyried statws y Comisiwn fel corff corfforaethol sydd â “bwrdd llywodraethu” sy’n cynnwys Aelodau etholedig yn gyfan gwbl.

Cafodd y rheolau ar gyfer cynnal busnes y Comisiwn eu mabwysiadu’n ffurfiol gan Gomisiwn y Cynulliad.

Bu’r Comisiynwyr yn trafod offerynnau drafft dirprwyo swyddogaethau’r Comisiwn a’r trefniadau i weithredu swyddogaethau'r Clerc. Rhoesant ystyriaeth arbennig i'r lefel briodol awdurdodedig ar gyfer gwariant cyfalaf, ac ar ôl gofyn am sicrwydd y bydd y manylion am wariant sylweddol yn parhau i gael eu nodi fel rhan o broses y gyllideb, cytunwyd ar ffigur o £ 5 miliwn ar gyfer prosiectau neu gontractau. Mae hyn yn adlewyrchu'r newid yn lefel dirprwyaethau dros y 10 mlynedd diwethaf, ac mae’n cyd-fynd â'r ddirprwyaeth yng nghyrff seneddol yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Cytunodd y Comisiwn y dylid cyhoeddi cynnwys y papur.

## 3 Portffolios Comisiwn y Cynulliad

Mae gan y Comisiwn gyfrifoldeb corfforaethol am arfer y swyddogaethau a roddwyd iddo ac am lywodraethu'r sefydliad.

Bu’r Comisiynwyr yn trafod yr egwyddorion llywodraethu sy’n darparu y gall y Comisiwn ddyrannu cyfrifoldeb am oruchwylio ystod ddiffiniedig o waith sefydliadol i Gomisiynydd unigol. Daethant i’r casgliad y byddai creu portffolios Comisiynwyr yn rhoi cyfle i bob Comisiynydd gynyddu ei wybodaeth mewn meysydd penodol ac i weithio gyda swyddogion i ddarparu cyfeiriad strategol ar

sail fwy rheolaidd a thrylwyr nag y byddai cyfarfodydd y Comisiwn yn unig yn ei ganiatáu.

Cytunwyd ar y portffolios a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cyfathrebu ac ymgysylltu | Elin Jones AC, Llywydd |
| Y gyllideb a llywodraethu, gan gynnwys bod yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. | Suzy Davies AC |
| Cydraddoldeb, a'r Comisiwn fel cyflogwr staff y Cynulliad. | Joyce Watson AC |
| Ieithoedd Swyddogol, a darparu a thrawsnewid gwasanaethau i Aelodau. | Dai Lloyd AC |
| Diogelwch ac adnoddau'r Cynulliad. | Caroline Jones AC |

## 4 Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad - Cynrychiolwyr y Bwrdd

Y Bwrdd Taliadau sy'n gyfrifol am Gynllun Pensiwn yr Aelodau a chyflwynodd gynllun newydd o fis Mai 2016. Ym mis Tachwedd 2015, cytunodd y Comisiynydd mai'r Swyddog Cyfrifyddu, mewn ymgynghoriad â'r Comisiynwyr, ddylai fod yn gyfrifol am nodi ac enwebu cynrychiolwyr y Comisiwn i'r Bwrdd Pensiynau newydd.

Ystyriodd y Comisiynwyr argymhellion y Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer cynrychiolwyr y Comisiwn a chytunwyd mai'r Cyfarwyddwr Cyllid a Suzy Davies AC y dylent fod.

Aelodau eraill y Bwrdd fydd Jill Youds, a benodwyd yn Gadeirydd Annibynnol yr Ymddiriedolwyr, Mike Hedges (AC presennol, Llafur) a Gareth Jones (cyn Aelod Cynulliad, Plaid Cymru).

## 5 Adroddiad etifeddiaeth Comisiwn y Cynulliad

Roedd adroddiad etifeddiaeth Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2011-16 wedi cael ei gytuno a'i gyhoeddi yn gynharach eleni. Nododd y Comisiynwyr yr adroddiad, gan gytuno y byddai'n fan cychwyn defnyddiol ar gyfer eu hystyriaethau hwy, yn enwedig mewn perthynas â datblygu Strategaeth y Comisiwn.

## 6 Unrhyw fater arall

Ni chodwyd unrhyw fater arall.